# Trychineb Aberfan 21 Hydref 1966

## drwy lygaid Wendy Grey Lloyd

Y mae'r rhan fwyaf o bobl yn gallu cofio beth oeddynt yn ei wneud, neu ble oeddynt, wrth grybwyll digwyddiadau arbennig o drasig. Does dim ond eisiau sôn am lofruddiaeth yr Arlywydd Kennedy, neu Fedi'r 11eg, a gallwn ni ddwyn i gof bob peth am y diwrnod hwnnw.

Digwyddiadau'r byd ydy'r rhain, ond pan lithrodd mynydd ar ddistaw duth i ysgol mewn pentref, a oedd tan 21 Hydref 1966 yn ddi-sôn-amdano, yr oedd hwnnw'n ddigwyddiad a gyffyrddodd genhedloedd.

Cofiaf yr union beth roeddwn i'n ei wneud. Ar fore'r drychineb cwrddwn â'm gynecolegydd a oedd yn fy sicrhau nad oedd rheswm corfforol pam na allwn genhedlu, er fy mod i'n ddi-blant ar y pryd. Wedi gadael y clinig, clywais fod tip glo wedi mygu'r Ysgol Gynradd yn Aberfan.

Peidiodd fy nghalon â churo. Roeddwn i'n adnabod y pentref. Cefais fy ngeni yno. Camgymeriad oedd e, mae'n siŵr. Onid yr Ysgol Uwchradd a safai yng nghysgod tywyll y tip oedd wedi ei gorchuddio? Ond roeddwn i'n anghywir. Fel neidr yn poeri ei wenwyn angheuol, roedd y pyramid aruchel wedi llithro'n araf ac yn ddistaw dros Ysgol Gynradd Pantglas. Yr oedd fy rhieni yn dal i fyw yn Aberfan, a mam wedi ymddeol fel athrawes o'r Ysgol honno ddwy flynedd ynghynt. Roedd rhaid mynd adref.



### Cyfarfod Harold Wilson, y Prif Weinidog

Dechreuodd y daith i Dde Cymru ganol dydd y Gwener trychinebus hwnnw. Rhaid teithio'r holl filltiroedd o Ogledd Cymru gyda'r penderfyniad i gyrraedd yn gyflym, ond yn ddiogel. Prin fu'r sgwrs, a thonfeddi'r radio yn methu â'n cyrraedd ni dros fynyddoedd Canolbarth Cymru. Yn ein meddyliau ceisiem ddychymygu'r gymuned ddistrywiedig. Fe'n stopiwyd ni wrth Ferthyr Tudful gan yr Heddlu. Wrth glywed bod gennym berthnasau yn Aberfan cawsom fynd ymlaen, ac yna wrth gyrraedd y drofan allan o'r dref, heb yn wybod i ni, roeddem yn rhan o fodurgad Harold Wilson. Gyda beiciau modur ar y blaen a mwy o gerbydau'r heddlu o'n hôl, methom ni â stopio, ac felly ymlaen â ni'n gyflym gyda chriw'r Prif Weinidog.

O'r diwedd, cyrhaeddom ni Merthyr Vale, efaill bentref Aberfan, sydd ar lan ochr arall Afon Taf. Mae'r pwll glo ym mhantle Merthyr Vale, gyda phont droed a phont ffordd yn cysylltu'r ddwy gymuned. Yr oedd gan y ddau bentref ei ysgol ei hun, ond mae'r pwll glo, y capel a'r eglwys yn ganolfannau cymunedol, lle mae'r bobl leol yn gweithio ac yn cwrdd â'i gilydd.

Stopiwyd ni eto gan yr Heddlu a'n gorchymyn i adael y car mewn arosfan. Ni châi'r un cerbyd groesi'r afon. Edrychom dros y Cwm. Tua saith o'r gloch fin nos oedd hi a'r awel yn gynnes. Roedd y pentref mewn tywyllwch heblaw am y goleuadau mawr dros safle'r ysgol, ac ager yn codi o'r tir fel y cynhesai gwres y goleuadau y slyri gwlyb.

Ymlwybrom, gyda'm rhieni, tuag at yr ysgol ddrylliedig. Safai un plismon wrth giatiau'r ysgol, gan adael i'r achubwyr fynd drwodd a rhwystro'r rhai a ddaeth ddim ond i syllu'n unig. Yr oedd ei dasg yn hynod o anodd, yn ceisio cysuro'r rhieni syfrdan a oedd yn methu amgyffred maint y drychineb.

Caewyd drysau ambiwlans yn glep ac i ffwrdd â hi mewn distawrwydd. Yn sydyn, roedd hi'n oer, ac anadl y gwylwyr yn codi fel arogldarth yn anfon ein gweddïau i'r Nefoedd. Doedd neb yn yngan gair.

### Distawrwydd yn Siarad

Dyna'r tro cyntaf i mi glywed Distawrwydd yn siarad. A'r glowyr, gyda'u hwynebau'n llawn dagrau, gan ddefnyddio'u picelli ac yna eu dwylo i geisio cyrraedd y cyrff a gladdwyd. Chysgodd neb y noson honno. Siaradodd neb y noson honno. Roedd hi fel petaem yn rhan o sioe fud. Roedd pob un yn gwybod beth oedd y llall yn ei feddwl neu'n ei ddymuno, felly nid oedd angen geiriau. Safem fel gwarchodwyr am amser maith nes i belydrau cynta'r wawr roi taw ar ein gwylnos.

Gwaedai fy nghalon dros bentref fy ngeni, dros y rhieni mewn galar, dros euogrwydd a feddiannai'r glowyr dieuog am y diwydiant a oedd wedi troi'r tipiau yn fynyddoedd.

### Y Gymuned mewn Galar

Treuliwyd ein dyddiau wedyn fel petaem mewn carchar, gyda gwragedd eraill yng Nghapel Smyrna, yn paratoi lluniaeth i'r bobl hynny a oedd wedi dod yno o bob man i helpu. Wedi clywed y newyddion, roeddynt wedi stopio beth bynnag roeddynt yn ei wneud a chael hyd i ffordd i bentref bach yng Nghwm Merthyr. Daeth dynion tân, gorffennodd plismyn eu shifftiau a dod, a dieithriaid a deimlai'r angen i fod yng nghanol y gwaith achub er mwyn dangos eu cefnogaeth i'r gymuned mewn galar – fe ddaethant hwythau i'r pentref. Ychydig o oleuni a ddeuai drwy ffenestri cul a bwaog y Capel. Roeddem yn glos wrth ein gilydd ond siaradon ni ddim. Edrychai'r dieithriaid ym myw ein llygaid, ac yna troi i ffwrdd, y gwefusau yn pallu ffurfio geiriau (a geiriau yn pallu o'u genau). Roedd yr awyrgylch yn y cantîn bondigrybwyll yma yn hynod lleddf. Darparwyd bara a gwahanol lenwadau gan bobyddion a groseriaid haelionus a threuliwyd y dyddiau yn dawel yn gwneud brechdanau. Wrth dywallt y te, yr unig eirau a ynganwyd oedd 'Llaeth?' 'Siwgwr?'

Cysgai'r criwiau lluddedig o helpwyr am ychydig oriau ar y meinciau pren anghyfforddus, cyn dychwelyd i dir yr ysgol. Tra'n arllwys y tê, meddyliwn am y Capel arall yn Aberfan, sef Bethania, lle y gorweddai cyrff yr anffodusion. Rhoddwyd y plant cwsg i orffwys yn ofalus ar bob mainc nes i'w rhieni tawedog ac amyneddgar gael eu galw i adnabod eu plentyn ac weithiau eu plant.

### Dwylo Cignoeth

Ar ddiwedd y dydd gadawem y Capel, a chriw newydd o ferched yn cyrraedd i ddarparu lluniaeth gydol y nos nes i ninnau gyrraedd gyda'r bore i ail ddechrau gweithio eto. Wrth gerdded hyd y Stryd Fawr yn Aberfan, roedd hi'n amhosibl gwahaniaethu rhwng y glowyr a'r helpwyr. Ymddangosai fel petaent i gyd yn dod o'r Pwll Glo ar ddiwedd shifft, mor welw oedd eu hwynebau yn llinellog â llwch y glo, eu dwylo'n aml yn goch a chignoeth, eu llygaid trist yn methu dirnad anferthrwydd y dasg o'u blaenau.

Yn sydyn, diflannodd golau'r dydd a syrthiodd tywyllwch yn ei holl agweddau.

Teimlwn ing calon dros bobl fy mhentref. Wyddwn i ddim ar y pryd, ond mewn llai na deng mlynedd wedyn roeddwn innau yn galaru eto, y tro hwn dros fy mhlentyn fy hun. Daethai â thrychineb Aberfan yn nes. Gwyddwn yn iawn beth oedd colli'r plant yn ei olygu i'r rhieni. Rwyf wedi cerdded ar hyd strydoedd Aberfan sawl tro ers hynny, a'r bobl yno yn ymwybodol ein bod yn rhannu'r un galar. Y mae galar yn ddolen sy'n uno pawb.